
# Ymgynghoriad ar y Cyd Ffurfiol i leihau'r capasiti ac ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas o fis Medi 2024

**19 Mehefin –**
**30 Gorffennaf 2023**



Os hoffech gael yr wybodaeth hon ar unrhyw ffurf arall er enghraifft braille neu brint bras, neu os hoffech gael help gan ddehonglydd iaith arall, cysylltwch â Chyngor Dinas Casnewydd ar 01633 656656 neu e-bostiwch school.reorg@newport.gov.uk

**Cymraeg**

If you would like this information in any other format, for example braille or large print, or help with interpretation in a different language, please contact Newport City Council on 01633 656656 or by emailing school.reorg@newport.gov.uk

**Saesneg**

如果您希望以其他格式獲取以上信息，例如凸字及大字體印刷，或者如您有口語翻譯的需求，請與新港市市政府聯繫。電話：01633 656656 郵箱school.reorg@newport.gov.uk_

**Cantoneg**

Pkud byste chtěli tyto informace v libovolném jiném formátu, například braillském písmu nebo velkém tištěném textu nebo pomoci s tlumočením v jiném jazyce, kontaktujte Newport City Council na čísle 01633 656656 nebo e-mailem school.reorg@newport.gov.uk

**Tsieceg**

اگر شما این اطلاعات را در فرمت دیگر می خواهید مثلاً بریل (الفباء نابینایان) یا چاپ بزرگ یا کمک به تفسیر در زبان دیگر، لطفا با شورای شهر نیوپورتNewport City Council تماس بگیرید 01633 656656 یا به این ادرس ایمیل کنید school.reorg@newport.gov.uk

**Ffarsi**

Ha szeretné ezt az információt másmilyen formátumban, peldául Braille-írással vagy nagybetűvel nyomtatottan vagy szeretne fordítást különböző nyelven akkor legyen szives kapcsolatba lépni a Newporti Tanáccsal a 01633 656656 telefonszámon vagy emailezzen a school.reorg@newport.gov.uk

**Hwngareg**

Jei norite gauti aukščiau pateiktą informaciją kitais formatais, pvz., "Brailio raštu" ir dideliu šriftų spausdinimu, arba jei turite žodinį vertimą, susisiekite su Niuporto miesto vyriausybe. Ffôn: 01633 656656. ElektroninisPaštas: school.reorg@newport.gov.uk

**Lithwaneg**

如果您希望以其他格式获取以上信息，例如盲文及大字体印刷，或者如您有口语翻译的需求，请与新港市市政府联系。 电话：01633 656656 邮箱：school.reorg@newport.gov.uk

**Mandarin**

Jeśli chcesz te informacje w innym formacie, np. Braille'em czy dużym drukiem, lub pomoc przy tłumaczeniu w innym języku, prosimy o kontakt z Urzędem Miasta Newport na 01633 656656 lub wysyłając maila na school.reorg@newport.gov.uk

**Pwyleg**

Se você quiser essa informação em qualquer outro formato, por exemplo braille ou impressão em letra grande, ou ajuda com a interpretação em um idioma diferente, entre em contato com a Câmara Municipal de Newport através do número 01633 656656 ou enviando um email para school.reorg@newport.gov.uk

**Portiwgeeg**

Dacă doriți această informație în alt format, de exemplu Braille sau în format mare, sau ajutor cu interpretarea în alta limbă, vă rugăm să contactați Newport City Council la numărul de telefon : 01633656656 sau prin e-mail-ul:school.reorg@newport.gov.uk

**Rwmaneg**

Если вы хотите получить вышеуказанную информацию в других форматах, таких как шрифт Брайля и большой шрифт, или если у вас есть необходимость в устном переводе, обратитесь в управление города Ньюпорт. Тел: 01633 656656 Электронная почта : school.reorg@newport.gov.uk

**Rwsieg**

V prípade, že potrebujete tieto informácie v inom formáte, ako napríklad Brajlove písmo alebo veľká tlač alebo potrebujete pomoc s prekladom alebo tlmočením do iného jazyka, prosím kontaktujte Newport City Council na telefónnom čísle 01633 656656 alebo mailom na school.reorg@newport.gov.uk

**Slofaceg**

Si desea esta información en cualquier otro formato, por ejemplo braille o letra grande, o ayuda con la interpretación en otro idioma, por favor póngase en contacto con el Ayuntamiento de Newport al 01633 656656 o por correo electrónico a school.reorg@newport.gov.uk

**Sbaeneg**

اگر آپ یہ معلومات کسی دوسری شکل میں حاصل کرنا پسند کریں گے مثال کے طور پر بریل (نابینا اشخاص کے لیۓ) یا بڑے پرنٹ میں یا دوسری سے اس نمبر پر رابطہ کریں Newport City Council زبان میں ترجعے کے لیۓ تو برائے مہربانی نیوپورٹ سٹی کونسل 01633 656656 یا اس پتہ پر ای میل کریں school.reorg@newport.gov.uk

**Wrdw**

Gellir trefnu i gael y wybodaeth hon mewn ieithoedd cymunedol eraill os bydd angen. Ffoniwch 01633 656656 i drefnu hynny.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** ... 3

**Y Broses Ymgynghori** ... 4

Ymgynghori ... 5

Trefniadau ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc ... 5

Gyda phwy y byddwn ni'n ymgynghori? ... 5

Beth mae angen i chi ei ystyried? ... 6

**Y Cynnig** ... 7

**Gostyngiad yn y Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) o 54 i 45** ... 8

Niferoedd Disgyblion Presennol ac yn y Gorffennol – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas ... 9

Rhagamcan Niferoedd Disgyblion – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas ... 9

Nifer Disgyblion Presennol ac yn y Gorffennol – Ysgolion Cynradd Clwstwr Ysgol Uwchradd Casnewydd ... 9

Rhagamcan Niferoedd Disgyblion – Ysgolion Cynradd Clwstwr Ysgol Uwchradd Casnewydd ... 10

Effaith NDC Is yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas 2024 - 2027 ... 10

**Sefydlu dosbarth meithrin 16 lle (CALI) a thrwy hynny ymestyn yr ystod oedran i 3-11 oed** ... 10

Niferoedd Disgyblion Presennol ac yn y Gorffennol – Dosbarthiadau Meithrin Lleol ... 11

Effaith creu dosbarth meithrin ag 16 lle yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas ... 11

**Beth Fydd y Cynnig yn ei Ddarparu?** ... 12

Strwythur dosbarth enghreifftiol yn yr Eglwys yng Nghymru Malpas – dosbarthiadau oedran cymysg ... 12

Ansawdd a Safonau ... 13

Pa Bryd y Gweithredir Hyn? ... 16

Cost ... 16

**Opsiynau Eraill a Ystyriwyd** ... 16

Beth fydd y cynnig yn ei gyflawni? ... 17

**Trefniadau Derbyn i'r Ysgol** ... 17

Dalgylch ... 17

Derbyniadau ... 18

Trafnidiaeth ... 18

**Ffurflen Ymateb i'r ymgynghoriad** ... 20

# Cyflwyniad

Mae hwn yn ymgynghoriad ffurfiol ar gynnig ar y cyd a gyflwynwyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, ynghyd â Chyngor Dinas Casnewydd:

**"I leihau nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol o 54 i 45 o fis Medi 2024; ac ymestyn yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn weithredol o fis Medi 2025"**

Dyma'ch cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau y bydd y Cyngor yn eu hystyried wrth benderfynu sut i fwrw ymlaen.

**Mae'r cyfnod ymgynghori ffurfiol hwn:**

- **Yn dechrau ar 19 Mehefin 2023**
- **Yn gorffen am hanner nos ar 30 Gorffennaf 2023**

# Cefndir

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn ysgol gynradd wirfoddol a reolir cyfrwng Saesneg sydd wedi'i lleoli ar Yewberry Close, yn ward Malpas. Mae gan yr ysgol nifer derbyn cyhoeddedig (NDC) o 54 disgybl gydag ystod oedran o 4-11 oed.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas wedi gostwng yn sylweddol. Ym mis Ionawr 2023, roedd 25% o leoedd gwag yn yr ysgol. Mae'r rhagamcanion disgyblion yn dangos y bydd nifer y lleoedd gwag yn parhau i gynyddu yn yr ysgol dros y 5 mlynedd nesaf.

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yw'r unig ysgol gynradd yng nghlwstwr Ysgol Uwchradd Casnewydd nad yw'n cynnig dosbarth meithrin. Yn y gorffennol, byddai disgyblion a fynychai Ysgol Feithrin Kimberley yn aml yn symud ymlaen i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas. Fis Mawrth 2021, cymeradwywyd y cynnig i gyfuno Ysgol Feithrin Kimberley ac Ysgol Feithrin Fairoak yn un ysgol feithrin ar safle Ysgol Feithrin Fairoak a hynny o fis Medi 2021. Felly, o fis Medi 2021, mae argaeledd lleoedd meithrin a gynhelir yn ardal Malpas/Betws wedi gostwng 80. Yn ystod yr ymgynghoriad i uno'r ysgolion meithrin, cododd tîm arweinyddiaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas bryderon ynghylch effaith bosibl y penderfyniad hwn ar nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol.

Trwy gyflwyno'r cynnig hwn, y bwriad yw darparu tegwch darpariaeth o dan fodel 3-11 ar draws pob ysgol gynradd yng nghlwstwr Ysgol Uwchradd Casnewydd. Bydd hefyd yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael ac yn rhoi sefydlogrwydd ar gyfer cynllunio a staffio'r dosbarthiadau yn yr ysgol.

## Y Broses Ymgynghori

Fel rhan o 'Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013', cyn cyhoeddi cynnig, yn gyntaf rhaid ymgynghori arno. Mae'r broses ymgynghori yn cynnwys nifer o gamau, fel y nodir yn y tabl isod:

| Cam | Disgrifiad | Hyd |
|---|---|---|
| 1 | **Ymgynghoriad**<br>Cyn cyhoeddi cynnig trefniadaeth ysgol, yn gyntaf rhaid ymgynghori ar y cynnig. Mae'r cyfnod ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a chynnig sylwadau i Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a'r Cyngor. | Fel rheol 6-8 wythnos |
| 2 | **Adroddiad ar yr Ymgynghoriad**<br>Caiff yr holl safbwyntiau a fynegir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori, sy'n cynnwys ymatebion gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a/neu'r Cyngor. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Ysgol a gwefan y Cyngor. Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried pan fydd y Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen. | Cyhoeddi o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol. |
| 3 | **Hysbysiad Statudol**<br>Os penderfynir i fwrw ymlaen, caiff hysbysiad statudol ei gyhoeddi ar wefan Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a gwefan y Cyngor a chaiff ei bostio wrth gatiau'r ysgol dan sylw am o leiaf 28 diwrnod. Mae'r cam hwn yn cynrychioli'r cyfnod gwrthwynebu ffurfiol sy'n caniatáu i bobl wrthwynebu'r cynnig. | Isafswm o 28 diwrnod (gan gynnwys 15 diwrnod ysgol) |
| 4 | **Adroddiad Gwrthwynebu**<br>Os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiad, gall y cynnig symud yn syth at benderfyniad Corff Llywodraethu'r ysgol ac Aelod Cabinet y Cyngor dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar. Os derbynnir gwrthwynebiadau, crynhoir y rhain mewn adroddiad gwrthwynebu a fydd yn cynnwys ymatebion y Corff Llywodraethu a/neu'r Cyngor. Caiff yr adroddiad dan sylw ei gyhoeddi ar wefan yr Ysgol a gwefan y Cyngor a chaiff ei ystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen. | Cyhoeddir o fewn 28 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu |
| 5 | **Penderfyniad**<br>Bydd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a'r Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law a bydd corff llywodraethu'r ysgol a/neu'r Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y cynnig. | Gwneir penderfyniad o fewn 16 wythnos i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu |
| 6 | **Hysbysiad o'r Penderfyniad**<br>Ar ôl gwneud y penderfyniad, bydd rhanddeiliaid wedyn yn cael gwybod am y canlyniad drwy lythyr penderfyniad, a fydd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a gwefan y Cyngor. | |

**Ymgynghoriad**

Mae'r cyfnod ymgynghori yn cynrychioli cam cyntaf y broses ymgynghori ac mae'n gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a gwefan y Cyngor a chaiff ei ystyried pan fydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a'r Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys dwy sesiwn galw heibio gyda'r rheiny a effeithir gan y cynnig lle bydd staff ysgol/llywodraethwyr a swyddogion y Cyngor ar gael i egluro'r cynigion yn fanylach ac i ateb unrhyw gwestiynau.

| Tabl 1: Sesiynau Galw Heibio | | |
|---|---|---|
| **Lleoliad** | **Dyddiad ac Amser** | **Sesiwn** |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas** | 27 Mehefin 15:00 – 16:00 | Galw Heibio |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas** | 4 Gorffennaf 09:00 – 10:00 | Galw Heibio |

**Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Gellir cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein sydd ar gael yma. Gall ymatebion hefyd gael eu cyflwyno dros e-bost i: school.reorg@newport.gov.uk. Dylid nodi ymatebion i'r ymgynghoriad a gyflwynir trwy'r cyfeiriad e-bost hwn yn glir fel ymatebion i'r ymgynghoriad, fel arall byddant yn cael eu trin fel ymholiad ac ni chânt eu cofrestru'n ffurfiol. Neu, gellir dychwelyd y ffurflen amgaeedig at y Swyddog Datblygu a Gwybodaeth Addysg, Ystafell 425w, Cyngor Dinas Casnewydd, Canolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR. ***Dim ond ymatebion a gyflwynir gan ddefnyddio'r dulliau hyn a gaiff eu hystyried fel ymatebion i'r ymgynghoriad.***

Caiff platfformau megis Twitter a Facebook hefyd eu defnyddio i rannu gwybodaeth am y newidiadau a gynigiwyd.

Ni fydd ymatebion negyddol a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynnig; byddant yn cael eu cofnodi fel sylwadau negyddol. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau. **Y dyddiad cau ar gyfer pob ymateb i'r ymgynghoriad yw hanner nos ar 30 Gorffennaf 2023.**

**Trefniadau ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc**

Caiff Fersiwn Gryno Bob Dydd i Blant a Phobl Ifanc ei chreu o'r ddogfen ymgynghori. Mae'r fersiwn hon yn ogystal â'r fersiwn lawn ar gael drwy wefan CDC www.casnewydd.gov.uk/Ad-drefnuYsgolion. Gallwch hefyd ofyn am gopïau caled drwy anfon e-bost i school.reorg@newport.gov.uk neu drwy ffonio 01633 656656, a byddant ar gael hefyd yn ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas. Ymgynghorir â disgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas drwy drefniant gyda'r ysgol.

**Gyda phwy y byddwn ni'n ymgynghori?**

- Pennaeth, athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas ac Ysgol Gynradd Parc Malpas;
- Disgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas;

- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas;
- Pennaeth a Chorff Llywodraethu pob ysgol yng Nghasnewydd;
- Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd;
- Pob Cyngor Cymuned yng Nghasnewydd;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau'r Senedd (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol sy'n destun y cynnig;
- Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau trafnidiaeth perthnasol;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru;
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Trefynwy;
- Yr Archesgobaeth Gatholig;
- Estyn;
- Undebau staff addysgu a staff cymorth yn cynrychioli athrawon a staff ymhob ysgol yng Nghasnewydd;
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;
- Pob darparwr addysg feithrin cofrestredig nas cynhelir yn yr ardal leol.
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent;
- Heddlu Gwent;
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Canolfan Serennu Casnewydd;
- SNAP Cymru;
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent;
- Gwasanaethau Ataliol.

**Beth mae angen i chi ei ystyried?**

Mae gweddill y ddogfen hon yn cyflwyno'r rhesymeg ar gyfer y cynnig. Hoffem i chi ystyried y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen a hoffem wybod a ydych yn cefnogi'r cynnig ai peidio.

# Y Cynnig

Mae hwn yn gynnig ar y cyd gan Gyngor Dinas Casnewydd a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas.

- Mae'r Cyngor yn cynnig lleihau Nifer Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol o 54 i 45 o fis Medi 2024, gan arwain at ostyngiad o 63 o leoedd disgyblion yn yr ysgol o 378 i 315, a;
- mae'r Corff Llywodraethu yn cynnig ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4-11 oed i 3-11 oed o fis Medi 2025, gan hwyluso sefydlu dosbarth meithrin ag 16 lle ar y dyddiad hwn.

Dros y 5 mlynedd diwethaf mae nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas wedi gostwng. Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn ffurfio rhan o glwstwr Uwchradd Casnewydd, sy'n cynnwys Ysgol Gynradd Crindau, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, Ysgol Gynradd Llys Malpas, Ysgol Gynradd Parc Malpas, Ysgol Gynradd Millbrook ac ysgolion Cynradd Mynwy.

Yn y flwyddyn academaidd 2017/18 roedd cyfanswm o 367 disgybl ar y gofrestr yn ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, ond gostyngodd hyn i 300 o ddisgyblion yn 2021/22; gan adael 20.63% o lefydd gwag yn yr ysgol. Mae'r niferoedd yn yr ysgolion eraill yn y clwstwr wedi aros yn gymharol sefydlog yn ystod y cyfnod hwn. Mae’r rhagamcanion disgyblion yn awgrymu erbyn 2026/27 mai dim ond 243 o ddisgyblion fydd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, gan olygu 35.71% o leoedd gwag. Bydd nifer gostyngol y disgyblion yn ei gwneud yn anodd cynllunio a rheoli'r ysgol, ac o bosibl yn gadael rhannau o'r ysgol heb eu defnyddio - sydd ddim yn gost-effeithiol.

Mae'r ysgol yn gweithredu ar sail 2 ddosbarth mynediad gyda dau ddosbarth o hyd at 27 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn.

Cynigir gostwng nifer derbyn disgyblion (NDC) yr ysgol o 54 i 45 ar draws yr ysgol o fis Medi 2024. Fodd bynnag, ni fyddai'r NDC llai yn effeithio ar unrhyw ddisgyblion sydd eisoes ar y gofrestr yn yr ysgol. Felly, pe bai unrhyw grŵp blwyddyn yn cynnwys mwy na 45 o blant ar y dyddiad gweithredu, byddai'r plant hyn yn parhau i fynychu'r ysgol ac ni fyddent yn cael eu dadleoli. Felly, byddai'r NDC newydd ond yn berthnasol i unrhyw grwpiau blwyddyn presennol a fyddai'n gweithredu ar y nifer hwnnw neu'n is, ac unrhyw dderbyniadau yn y dyfodol.

Bydd lleihau'r NDC yn gostwng nifer y lleoedd gwag, gan wneud cynllunio a rheoli'r ysgol yn haws ac yn fwy cost-effeithiol, ac yn galluogi'r Corff Llywodraethu i ymestyn ystod oedran yr ysgol i gefnogi sefydlu dosbarth meithrin. Bydd hyn yn darparu lleoedd addysg Blynyddoedd Cynnar ac yn cynyddu cysondeb a chynefindra i ddisgyblion sydd wedyn yn pontio i ddosbarth Derbyn y flwyddyn ganlynol.

Bydd sefydlu dosbarth meithrin yn cynyddu nifer y lleoedd meithrin a ariennir sydd ar gael ledled y ddinas ac yn galluogi pontio cadarnhaol i addysg prif ffrwd statudol. Bydd y dosbarth meithrin yn defnyddio ystafell ddosbarth y gellir ei rhyddhau oherwydd y niferoedd isel o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.

### Ysgolion yr effeithir arnynt

Yr ysgol a gaiff ei heffeithio'n uniongyrchol yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas. Does dim disgwyl y bydd unrhyw ysgol arall yn cael ei heffeithio'n sylweddol. Fodd bynnag, oherwydd agosrwydd a’r bwriad i sefydlu dosbarth meithrin, mae posibilrwydd o gael effaith fach ar Ysgol Gynradd Parc Malpas:

- Ysgol Gynradd Parc Malpas (0.7 milltir). Mae Ysgol Gynradd Parc Malpas yn ysgol gynradd gymunedol Saesneg a gynhelir.  Mae ganddi nifer derbyn o 30 ar gyfer dosbarthiadau Derbyn i Flwyddyn 6 a nifer derbyn o 32 i'r feithrinfa.

Gallai'r ysgol uchod gael ei heffeithio mewn tair ffordd bosibl:

1) Bydd y lleoedd ysgol feithrin newydd yn Eglwys Malpas yn arwain at lai o niferoedd meithrin mewn ysgolion cyfagos.

Yn y gorffennol, mae teuluoedd sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas wedi defnyddio'r ysgolion meithrin lleol eraill, gyda'r mwyafrif yn mynychu Ysgol Feithrin Kimberley. Yn dilyn uno ysgolion meithrin Kimberley a Fairoak ar safle Fairoak o fis Medi 2021, mae ysgolion eraill yr ardal, yn enwedig Ysgol Gynradd Parc Malpas, wedi cymryd mwy o ddisgyblion oed meithrin o ddalgylch Eglwys Malpas.   Felly, mae'n bosibl y bydd creu dosbarth meithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn cael effaith gyfyngedig ar niferoedd disgyblion meithrin yn Ysgol Gynradd Parc Malpas.  Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai'r cynnig yn dychwelyd niferoedd i lefelau tebyg i'r rhai a welwyd cyn uno ysgolion meithrin Kimberley a Fairoak .

2) Gallai plant sy'n mynychu meithrinfa Ysgol Gynradd Eglwys Malpas ddewis gwneud cais am le Derbyn yno, lle byddant fel arall wedi mynychu meithrinfa ac ysgol leol arall.

Mae cyfraddau genedigaethau dalgylch yr ysgol yn awgrymu bod yr ysgol yn hanesyddol wedi derbyn cyfran sylweddol o ddisgyblion o'r tu allan i'r dalgylch o'r ardal ehangach. Os bydd pob disgybl yn y dalgylch yn mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, ni ddisgwylir i'r effaith ar ysgolion lleol eraill fod yn arwyddocaol o'i gymharu â'r blynyddoedd diwethaf.

3) Os bydd y galw am leoedd ysgol oedran statudol yn yr ardal yn cynyddu, a bod gordanysgrifio yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, efallai y bydd ysgolion cyfagos yn gweld cynnydd mewn ceisiadau am leoedd ysgol.

Mae'r rhagamcanion disgyblion yn dangos y bydd poblogaethau disgyblion yn aros yn sefydlog neu'n gostwng ychydig dros y blynyddoedd nesaf.  Nid oes disgwyl i niferoedd derbyn yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas fod yn fwy na 40 o ddisgyblion, ac mae disgwyl i bob ysgol arall yn y clwstwr fod yn gweithredu o fewn eu capasiti presennol.

## Gostyngiad yn y Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) o 54 i 45

Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn gweithredu ar sail 2 ddosbarth mynediad gyda dau ddosbarth cysylltiedig o hyd at 27 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn.  Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 378 o leoedd disgyblion ar draws y saith grŵp oedran statudol.  Mae niferoedd sy'n gostwng, gyda niferoedd Derbyn hynod o isel yn y tair blynedd diwethaf wedi arwain at nifer cynyddol o leoedd gwag yn yr ysgol, ac wedi cyflwyno rhai heriau i'r ysgol o ran rheoli cyllideb, staffio a strwythur dosbarthiadau.

O fis Medi 2024, cynigir y bydd y NDC yn gostwng i 45 o 54 ar draws pob grŵp blwyddyn.  Fodd bynnag, ni fyddai'r NDC llai yn effeithio ar unrhyw ddisgyblion sydd eisoes ar y gofrestr yn yr ysgol. Felly, pe bai unrhyw grŵp blwyddyn yn cynnwys mwy na 45 o blant ar y dyddiad gweithredu, byddai'r plant hyn yn parhau i fynychu'r ysgol ac ni fyddent yn cael eu dadleoli.  Byddai'r NDC newydd ond yn berthnasol i unrhyw grwpiau blwyddyn presennol sy'n gweithredu ar y nifer hwnnw neu nifer is, ac unrhyw dderbyniadau yn y dyfodol.

**Niferoedd disgyblion Presennol ac yn y Gorffennol – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas**

| Tabl 2 - Niferoedd disgyblion diweddar – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas (Derbyn – Bl6) | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Niferoedd Disgyblion 2017-2023 – CYBLD | | | | | | | | | |
| **Blwyddyn** | **D** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **Cyfanswm** | **% Llefydd gwag** |
| **NDC** | **54** | **54** | **54** | **54** | **54** | **54** | **54** | **378** | |
| **2017/18** | 52 | 52 | 52 | 55 | 46 | 53 | 57 | 367 | 2.91% |
| **2018/19** | 48 | 48 | 51 | 52 | 54 | 44 | 52 | 349 | 7.67% |
| **2019/20** | 50 | 48 | 48 | 47 | 49 | 52 | 41 | 335 | 11.38% |
| **2020/21** | 36 | 48 | 48 | 47 | 40 | 48 | 47 | 314 | 16.93% |
| **2021/22** | 35 | 35 | 47 | 48 | 48 | 39 | 48 | 300 | 20.63% |
| **2022/23** | 22 | 36 | 37 | 45 | 48 | 52 | 41 | 281 | 25.66% |

**Rhagamcan Niferoedd Disgyblion – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas**

| Tabl 3 - Rhagamcan niferoedd disgyblion – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas (Derbyn – Bl6) | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **D** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **Cyfanswm** | **% Llefydd gwag** |
| **NDC** | **54** | **54** | **54** | **54** | **54** | **54** | **54** | **378** | |
| **2022/23*** | 22 | 36 | 37 | 45 | 48 | 52 | 41 | 281 | 25.66% |
| **2023/24** | 24 | 23 | 37 | 37 | 46 | 48 | 52 | 267 | 29.36% |
| **2024/25** | 27 | 26 | 24 | 38 | 37 | 44 | 45 | 241 | 36.24% |
| **2025/26** | 35 | 28 | 28 | 26 | 40 | 38 | 44 | 239 | 36.77% |
| **2026/27** | 39 | 36 | 30 | 32 | 28 | 40 | 38 | 243 | 35.71% |
| * Niferoedd Disgyblion 2022/23 – CYBLD | | | | | | | | | |

**Nifer Disgyblion Presennol ac yn y Gorffennol – Ysgolion Cynradd Clwstwr Ysgol Uwchradd Casnewydd**

| **Tabl 4 – Niferoedd disgyblion cynradd** Clwstwr Ysgol Uwchradd Casnewydd D-Bl6 2017-2023 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd Disgyblion Prif Ffrwd 2017-2023 – CYBLD** | | | | | | | | |
| **Ysgol** | **Capasiti (2022)** | **2017 - 2018** | **2018 - 2019** | ***2019 - 2020*** | ***2020 - 2021*** | ***2021 - 2022*** | ***2022 - 2023*** | **Lleoedd Dros Ben 2022/23** |
| **Ysgol Gynradd Crindau** | **315** | 299 | 287 | 292 | 287 | 286 | 303 | 3.81% |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas** | **378** | 367 | 349 | 335 | 314 | 300 | 281 | 25.66% |
| **Ysgol Gynradd Llys Malpas** | **210** | 197 | 192 | 184 | 182 | 190 | 191 | 9.05% |
| **Ysgol Gynradd Parc Malpas** | **210** | 200 | 205 | 202 | 200 | 199 | 209 | 0.48% |
| **Ysgol Gynradd Millbrook** | **315** | 230 | 250 | 256 | 266 | 283 | 276 | 12.38% |
| **Ysgol Gynradd Mynwy** | **420** | 319 | 321 | 322 | 302 | 296 | 307 | 26.90% |
| **Cyfanswm y Clwstwr** | **1,848** | 1,612 | 1,604 | 1,591 | 1,551 | 1,554 | 1,567 | 15.21% |

**Rhagamcan Niferoedd Disgyblion – Ysgolion Cynradd Clwstwr Ysgol Uwchradd Casnewydd**

| **Tabl 5 – Rhagamcanion disgyblion cynradd** Clwstwr Ysgol Uwchradd Casnewydd2022-2027 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Capasiti (2022)** | **2022 - 2023*** | **2023 - 2024** | ***2024 - 2025*** | ***2025 - 2026*** | ***2026 - 2027*** | **Lleoedd Dros Ben 2026/27** |
| **Ysgol Gynradd Crindau** | **315** | 303 | 280 | 287 | 285 | 283 | *32* |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas** | **378** | 281 | 267 | 241 | 239 | 243 | *135* |
| **Ysgol Gynradd Llys Malpas** | **210** | 191 | 186 | 186 | 186 | 181 | *29* |
| **Ysgol Gynradd Parc Malpas** | **210** | 209 | 199 | 198 | 198 | 201 | *9* |
| **Ysgol Gynradd Millbrook** | **315** | 276 | 297 | 293 | 285 | 288 | *27* |
| **Ysgol Gynradd Mynwy** | **420** | 307 | 299 | 296 | 286 | 286 | *134* |
| **Cyfanswm y Clwstwr** | **1,848** | 1,567 | 1,539 | 1,529 | 1,495 | 1,486 | *366* |
| * Niferoedd Disgyblion 2022/23 – CYBLD | | | | | | | |

Mae tabl 5, uchod, yn dangos sefyllfa ragamcanol o 366 o leoedd gwag ar draws y clwstwr erbyn 2026-27. Mae hyn yn cyfateb i bron i 20% ac mae'n ddwywaith y swm a ystyrir yn addas i reoli mudo yn ystod y flwyddyn a galluogi rheoli cyllideb effeithlon. Rhagwelir y bydd cyfran sylweddol o'r lleoedd gwag hyn yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas.

**Effaith NDC Is yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas 2024 - 2027**

Mae'r tabl isod yn dangos, drwy leihau'r nifer derbyn i 45, bod nifer y lleoedd gwag ar draws yr ysgol yn gostwng yn sylweddol erbyn 2026/27, o 135 (35.71%) a ddangosir yn nhabl 3 a 5; i 72 (22.86%).

| **Tabl 6 – Effaith NDC Is – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas (Derbyn – Rhagamcanion Disgyblion Bl6)** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **D** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **Cyfanswm** |
| **NDC** | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 315 |
| **2024/25** | 27 | 26 | 24 | 38 | 37 | 44 | 45 | 241 |
| **Lleoedd ar gael** | 18 | 19 | 21 | 7 | 8 | 1 | 0 | 74 |
| **2025/26** | 35 | 28 | 28 | 26 | 40 | 38 | 44 | 239 |
| **Lleoedd ar gael** | 10 | 17 | 17 | 19 | 5 | 7 | 1 | 76 |
| **2026/27** | 39 | 36 | 30 | 32 | 28 | 40 | 38 | 243 |
| **Lleoedd ar gael** | 6 | 9 | 15 | 13 | 17 | 5 | 7 | 72 |

## Ymestyn ystod oedran yr ysgol i 3-11 oed a thrwy hynny sefydlu dosbarth meithrin ag 16 lle (cyfwerth ag amsr llawn)

Bydd ymestyn ystod oedran yr ysgol yn cefnogi sefydlu dosbarth meithrin. Bydd hyn yn ei dro yn cynyddu nifer y lleoedd meithrin a ariennir sydd ar gael ledled y ddinas ac yn galluogi pontio cadarnhaol i addysg prif ffrwd statudol. Bydd y dosbarth meithrin yn defnyddio ystafell ddosbarth y gellir ei darparu oherwydd niferoedd isel o ddisgyblion sy'n mynychu ar hyn o bryd. Bydd hyn yn darparu lleoedd addysg Blynyddoedd Cynnar yn yr ysgol ac yn cynyddu cysondeb a chynefindra i ddisgyblion sydd wedyn yn pontio i ddosbarth Derbyn y flwyddyn ganlynol.

Mae'r tabl ar y dudalen ganlynol yn dangos nifer y lleoedd meithrin a'r Blynyddoedd Cynnar a ariennir sydd ar gael yn yr ardal leol, a nifer y lleoedd heb eu llenwi ar y ddau ddyddiad cyfrifiad diwethaf. Mae hyn yn dangos mai ychydig iawn o leoedd meithrin/Blynyddoedd Cynnar 'codi'n dair' sydd wedi'u hariannu yn yr ardal leol.

**Niferoedd Disgyblion Presennol ac yn y Gorffennol – Dosbarthiadau Meithrin Lleol**

**Tabl 7 – Niferoedd disgyblion Ysgolion Meithrin Lleol 2018-2023**

Niferoedd Disgyblion – Cyfrifiad Tymor yr Hydref (Hyd)
Nifer y disgyblion 'codi'n 3 oed' fis Ionawr – Tymor y Gwanwyn (Ion)

| Ysgol | NDC (2023) | 2018 - 2019 | | *2019 - 2020* | | *2020 - 2021* | | *2021 - 2022* | | *2022 - 2023* | | Lleoedd ar gael 2022/23 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Hyd | Ion | Hyd | Ion | Hyd | Ion | Hyd | Ion | Hyd | Ion | Hyd | Ion |
| Ysgol Gynradd Malpas Court** | 39 | 37 | 1 | 31 | 9 | 23 | 12 | 26 | 4 | 28 | 8 | *11* | *3* |
| Ysgol Gynradd Parc Malpas | 32 | 25 | 5 | 24 | 7 | 22 | 7 | 30 | 2 | 28 | 4 | *4* | *0* |
| Ysgol Gynradd Millbrook | 32 | 31 | 2 | 31 | 1 | 32 | 0 | 25 | 6 | 30 | 2 | *2* | *0* |
| Ysgol Gynradd Mynwy | 60 | 41 | 17 | 42 | 15 | 46 | 12 | 40 | 14 | 46 | 7 | *14* | *7* |
| Meithrinfa Chuckles# | 32 | 21 | 18 | 28 | 8 | 15 | 14 | 23 | 17 | 14 | 18 | *18* | *0* |
| Meithrinfa Tiny Tots# | 24 | 18 | 8 | 13 | 1 | 11 | 3 | 18 | 8 | 17 | 5 | 7 | 2 |

**** Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd Malpas Court yn cynnig meithrinfa 'foreol yn unig'.***
***#Lleoliadau nas cynhelir***

Mae Chuckles Nursery a Tiny Tots Nursery ill dau yn lleoliadau nas cynhelir. Adeiladwyd estyniad i Chuckles Nursery yn 2021/22 a chynyddodd nifer y lleoedd cofrestredig a gynigiwyd o 24 i 32. Yn sgil y galw yn gynnar yn 2020 cynyddodd Meithrinfa Tiny Tots nifer y lleoedd cofrestredig a gynigir hefyd o 18 i 24. Mae hyn yn dangos bod galw am leoedd meithrin o fewn ardal Malpas a Betws.

**Effaith ymestyn yr ystod oedran ac felly creu dosbarth meithrin ag 16 o leoedd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas**

Bydd y bwriad i sefydlu dosbarth meithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn creu 32 o leoedd addysg Blynyddoedd Cynnar hanner diwrnod ychwanegol yn ardal Malpas. Rhagwelir y bydd hyn yn annog rhieni sy'n byw yn yr ardal i fanteisio ar y lleoedd addysg a ariennir yma. Bydd mwy o leoedd meithrin ar gael yn arwain at fwy o leoedd 'codi'n 3' ar gael i blant gan roi mwy o opsiynau i rieni ar gyfer addysg feithrin. Bydd hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r bwlch yn y ddarpariaeth a all ddigwydd pan fydd plant yn gadael Dechrau'n Deg yn 3 oed. Dylai hyn yn ei dro helpu i wella pontio'r plant i addysg prif ffrwd pan fyddant yn bedair oed.

Os nad yw'r nifer sy'n derbyn lleoedd meithrin yn yr ardal yn gwella o ganlyniad i'r cynnig niferoedd uwch, yna gellid gwasgaru nifer debyg o ddisgyblion ag sy'n mynychu dosbarthiadau meithrin ar hyn o bryd ar draws mwy o ddarparwyr lleol. Yn y sefyllfa yma, gallai rhai darparwyr, gan gynnwys y ddarpariaeth newydd, leihau eu cynnig trwy gynnal sesiynau bore neu brynhawn yn unig.

**Cyflwr Adeiladau**

Barnwyd cyflwr yr adeiladau yr effeithir arnynt gan y cynnig hwn ar raddfa o A i D fel a ganlyn:

| Tabl 8 - Cyflwr Adeiladau | |
|---|---|
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas** | C |

# Beth Fydd y Cynnig yn ei Ddarparu?

Bydd y cynnig ar y cyd yn gyfreithiol yn gostwng NDC Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas o 54 i 45 o fis Medi 2024 a bydd capasiti'r ysgol yn gostwng 63 lle o 378 i 315 o'r dyddiad hwn; O ganlyniad, bydd ystod oedran yr ysgol yn cael ei ymestyn o 4-11 i 3-11 o fis Medi 2025, gan alluogi sefydlu dosbarth meithrin o'r dyddiad hwn hefyd.

Mae'r ysgol yn gweithredu ar sail 2 ddosbarth mynediad gyda dau ddosbarth cysylltiedig o hyd at 27 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn. Fodd bynnag, oherwydd niferoedd is yn y blynyddoedd diwethaf, darperir addysg ar hyn o bryd mewn dosbarthiadau oedran cymysg ar draws y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1. Rhagwelir y bydd angen trefniadau dosbarth oedran cymysg am y dyfodol rhagweladwy, oherwydd y niferoedd dosbarth isel.

Bydd y cynnig yn golygu newid ffurfiol tuag at ddosbarthiadau oedran cymysg mewn mwy nag un grŵp blwyddyn yn yr ysgol. Dangosir isod enghraifft o sut y gallai'r ysgol weithredu gyda 45 disgybl fesul grŵp blwyddyn. Yn weithredol, bydd y strwythur yn dibynnu ar yr union niferoedd ar y gofrestr ym mhob grŵp blwyddyn ar unrhyw adeg benodol.

**Strwythur dosbarth enghreifftiol yn yr Eglwys yng Nghymru Malpas – dosbarthiadau oedran cymysg.**

**Tabl 10 – Strwythur dosbarth enghreifftiol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas**

| | Meithrinfa | Derbynfa | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dosbarth Babanod 1** | 16 | | | | | | | |
| **Dosbarth Babanod 2/Heulfan** | | 30 | | | | | | |
| **Dosbarth Babanod 3** | | 15 | 12 | | | | | |
| **Dosbarth Babanod 4** | | | 26 | | | | | |
| **Dosbarth Babanod 5** | | | 7 | 19 | | | | |
| **Dosbarth Babanod 6** | | | | 26 | | | | |
| | | | | | | | | |
| **Dosbarth Iau 1** | | | | | 23 | | | |
| **Dosbarth Iau 2** | | | | | 22 | | | |
| **Dosbarth Iau 3** | | | | | | 23 | | |
| **Dosbarth Iau 4** | | | | | | 22 | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dosbarth Iau 5** | | | | | | | 36 | |
| **Dosbarth Iau 6** | | | | | | | | |
| **Dosbarth Iau 7** | | | | | | | 9 | 18 |
| **Dosbarth Iau 8** | | | | | | | | 27 |




**Ansawdd a Safonau**

Estyn sy'n monitro ansawdd a safonau ysgolion yng Nghasnewydd, ar y cyd â'r Awdurdod Lleol (ALI). Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n gorff y Goron, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond mae'n cael ei arian gan Lywodraeth Cymru dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant Cymru.

Arolygiad diwethaf Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas oedd Tachwedd 2019 ac arweiniodd hynny at osod yr ysgol yn y categori "mesurau arbennig".

| **Tabl 9 – Arolygiadau Estyn** | |
|---|---|
| ***Maes Arolygu*** | ***Dyfarniad*** |
| ***Safonau*** | *Digonol ac angen gwella* |
| ***Llesiant ac agweddau at ddysgu*** | *Digonol ac angen gwella* |
| ***Profiadau dysgu ac addysgu*** | *Digonol ac angen gwella* |
| ***Gofal, cymorth ac arweiniad*** | *Anfoddhaol ac angen gwella ar frys* |
| ***Arwain a rheoli*** | *Anfoddhaol ac angen gwella ar frys* |

Ers yr arolygiad diwethaf hwn, mae perfformiad yn erbyn pob maes arolygu wedi gwella'n sylweddol o dan arweinyddiaeth Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr newydd. Mae'r Corff Llywodraethu

hefyd wedi cael ei gryfhau gyda llywodraethwyr newydd ac ychwanegol y mae eu sgiliau wedi ategu rhai unigolion mwy hirhoedlog a phrofiadol.

Ym mis Tachwedd 2022, cynhaliodd Estyn ymweliad monitro, a barnu bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion a wnaed yn yr arolygiad craidd. O ganlyniad, penderfynodd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru dynnu'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen mesurau arbennig.

Ystyrir effaith bosibl y cynnig ar ansawdd a safonau yn unol â fframwaith Arolygu Estyn sydd wedi'i ddiweddaru ar gyfer blwyddyn academaidd 2022.

***Dysgu***

Dysgu – Ni fydd y cynnig yn effeithio ar safonau na chynnydd dysgu mewn unrhyw ysgol arall. Disgwylir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar Ddysgu yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a bydd yn gwella gallu ar y gwaelodlin ar adeg mynd i'r dosbarth Derbyn. Bydd yr ysgol yn parhau i dderbyn y lefel briodol o her a chymorth i sicrhau bod y disgyblion yn datblygu'r agweddau a'r ymddygiadau allweddol a fydd yn eu helpu drwy eu bywydau ac yn cyflawni safonau uchel wrth ddatblygu sgiliau a gwneud cynnydd.

***Llesiant ac agweddau at ddysgu –***

Mae llesiant disgyblion yn hollbwysig. Bydd llesiant y disgyblion yn cael ei fonitro drwy brosesau cynllunio a hunan-werthuso strategol yr ysgol a drwy grŵp 'Dysgu'n Dda' yr awdurdod lleol. Bydd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn cynnig amgylchedd dysgu i'r disgyblion lle byddant yn teimlo'n ddiogel a lle byddant yn dod yn unigolion iach a hyderus. Bydd y dosbarth meithrin arfaethedig yn galluogi'r ysgol i ddechrau'r gwaith hwn yn gynharach, a thrwy hynny gwrdd ag anghenion disgyblion yn fwy effeithiol.

***Profiadau dysgu ac addysgu***

Profiadau addysgu a dysgu - Bydd ansawdd y profiadau addysgu a dysgu yn cael ei fonitro drwy brosesau cynllunio a hunan-werthuso strategol yr ysgol, gyda'r ysgol yn cael y lefelau priodol o her a chymorth i sicrhau bod gweledigaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas ar gyfer addysgu a dysgu yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm Newydd yng Nghymru. Bydd y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno yn Saesneg gydag ymarfer yr ystafell ddosbarth yn cynnwys pob disgybl yn llwyddiannus i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i lefel uchel briodol wrth symud drwy'r ysgol. Drwy sefydlu dosbarth meithrin yn yr ysgol bydd yn cynnig pontio cadarnhaol i addysg prif ffrwd statudol.

***Gofal cymorth ac arweiniad***

Bydd ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn cael ei fonitro drwy brosesau cynllunio a hunan-werthuso strategol yr ysgol. Bydd yr ysgol yn cael y lefelau priodol o her a chymorth i sicrhau bod darpariaeth ar gyfer datblygiad personol y disgyblion a chymorth dysgu yn bodloni anghenion y disgyblion mewn diwylliant sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol, a diwylliannol y disgyblion. Bydd y dosbarth meithrin arfaethedig yn galluogi'r ysgol i ddechrau'r gwaith hwn yn gynharach, ac felly i ateb anghenion y disgyblion yn fwy effeithiol.

***Arwain a rheoli***

Bwriad y newidiadau arfaethedig yw lleihau nifer y lleoedd gwag yn yr ysgol a sefydlogi niferoedd dosbarthiadau a thrwy hynny wneud cynllunio cyllideb yn llai heriol. Disgwylir y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas. Bydd arweinyddiaeth yr ysgol yn cael lefel briodol o her a chymorth i sicrhau bod gweledigaeth yr ysgol yn cael ei chyfathrebu'n dda, a bod nodau, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau'r ysgol yn canolbwyntio ar fodloni anghenion y disgyblion; fel bo'r disgyblion yn cyflawni'n dda, a bod diwylliant o ddiogelu yn cael ei hyrwyddo.

**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Mae tair ysgol gynradd yng nghlwstwr Ysgol Uwchradd Casnewydd sy'n cynnal dosbarthiadau ADY arbenigol. Mae'r rhain yn Ysgol Gynradd Mynwy (20 lle), Ysgol Gynradd Crindau (20 lle) ac Ysgol Gynradd Llys Malpas (16 o leoedd nam iaith a lleferydd). Nid chynllunnir unrhyw ddarpariaeth ADY arbenigol ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, ac ni fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith ar y ddarpariaeth bresennol o fewn y clwstwr nac mewn mannau eraill yng Nghasnewydd.

**Effaith ar y ddarpariaeth Gymraeg**

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arolwg ar-lein i rieni a ddatblygwyd ar y cyd ag arweinwyr Gofal Plant Awdurdodau Lleol er mwyn bwydo'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Roedd yr arolwg i rieni yn broses genedlaethol a derbyniodd Casnewydd 619 o ymatebion cyflawn i'r arolwg.

Nododd 21% o'r ymatebwyr yr hoffent ystyried gofal plant cyfrwng Cymraeg. Ymddengys mai argaeledd a phellter teithio yw'r problemau mwyaf sy'n wynebu gallu manteisio ar ofal plant cyfrwng Cymraeg. [1]

O fis Medi 2023 bydd 22 lle bore a 22 lle prynhawn Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 2-3 oed yn cael eu darparu yn Ysgol Gymraeg Ifor Hael sydd wedi'i lleoli yn ardal y Betws.

Mae 19 o leoedd addysg cofrestredig yng Nghylch Meithrin Bryn-glas ar gyfer plant 3-4 oed.

Mae 30 o leoedd meithrin a gynhelir ar gyfer plant 3-4 oed yn cael eu cynnig yn Ysgol Gymraeg Ifor Hael sydd wedi'i lleoli yn ardal y Betws. Ar hyn o bryd mae'r feithrinfa yn cynnig sesiynau 'bore yn unig', felly os yw'r galw am leoedd meithrin Cymraeg yn cynyddu, gall yr ysgol o bosibl gynnig 30 lle arall mewn sesiwn brynhawn. Mae'r tabl isod yn dangos bod digon o leoedd wedi bod yn y dosbarth Meithrin dros y 6 blynedd diwethaf.

**Tabl 11 – Niferoedd meithrin cyfrwng Cymraeg lleol 2017-2023**

Niferoedd Disgyblion Meithrin 2017-2022 - Cyfrifiad Tymor yr Hydref (Hyd)
Niferoedd disgyblion 'codi'n 3 oed' yn Ionawr 2018-2023 – Tymor y Gwanwyn (Ion)

| Ysgol | NDC (2023) | 2017 - 2018 | | 2018 - 2019 | | *2019 - 2020* | | *2020 - 2021* | | *2021 - 2022* | | *2022 - 2023* | | Lleoedd sydd ar gael * 2022/23 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Hyd | Ion | Hyd | Ion | Hyd | Ion | Hyd | Ion | Hyd | Ion | Hyd | Ion | Hyd | Ion |
| Ysgol Gymraeg Ifor Hael** | 30 | 22 | 2 | 11 | 6 | 22 | 2 | 11 | 9 | 19 | 0 | 22 | 2 | *8* | *6* |

***** Nid yw'r lleoedd sydd ar gael bob amser yn cyd-fynd â'r NDC oherwydd cyflwyno disgyblion Prif ffrwd a Codi'n 3 ar wahân.***
***** Ar hyn o bryd mae Ysgol Gymraeg Ifor Hael yn gweithredu meithrinfa 'bore yn unig'.***

Felly, mae digon o ddarpariaeth addysg Gymraeg yn ardaloedd Malpas a Betws i blant rhwng 2 a 4 oed.

[1] https://www.newport.gov.uk/documents/Care-and-Support/Childcare-Sufficiency-Assessement/Section-7-demand-for-childcare.pdf

Mae Ysgol Gymraeg Ifor Hael yn darparu addysg Gymraeg yng nghymunedau Betws a Malpas. Mae gan yr ysgol NDC o 30 a chapasiti dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 o 210 o ddisgyblion. Mae'r rhagamcanion presennol yn awgrymu y bydd gan yr ysgol o leiaf 18% o leoedd gwag yn ystod y blynyddoedd nesaf, sy'n awgrymu digon o ddarpariaeth leol i'r tymor a chanolig.

Mae'r cynnig hwn ar gyfer lleihau'r NDC a sefydlu dosbarth meithrin mewn ysgol Saesneg. Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ledled Casnewydd fel yr amlinellir yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd. Mae manylion y ffactorau a ystyriwyd wrth wneud y cynnig hwn wedi'u cynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb.

**Effaith ar ysgolion eraill**

Ni fydd y cynnig yn effeithio'n niweidiol ar ysgolion eraill yng Nghasnewydd. Gallai unrhyw effaith ar niferoedd meithrinfa Ysgol Gynradd Parc Malpas gael ei reoli'n weddol hawdd.

**Pa Bryd y Gweithredir Hyn?**

Y cynnig yw lleihau'r NDC yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn gyfreithiol 9 lle o 54 i 45 o fis Medi 2024 ymlaen a fydd yn gweld capasiti'r ysgol yn disgyn 63 o lefydd o 378 i 315 a chynyddu'r ystod oedran o 4-11 i 3-11 drwy sefydlu dosbarth meithrin o fis Medi 2025 ymlaen.

**Cost**

<u>Cyfalaf</u>
Bydd y cynnig yn gofyn am rai newidiadau bach i ystafelloedd dosbarth. Ni ddisgwylir i'r costau hyn fod yn sylweddol a byddant yn cael eu hariannu o gyllideb yr ysgol.

<u>Refeniw</u>
Bydd y costau cylchol sy'n gysylltiedig â staffio a rhedeg yr ysgol yn cael eu talu gan Gyngor Dinas Casnewydd drwy gyllideb ddirprwyedig yr ysgol. Mae'r ysgol a'r corff llywodraethu yn hyderus y gellir talu'r costau staffio ar gyfer y feithrinfa o gyllideb yr ysgol. Mae cyllid ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion sydd ar hyn o bryd yn is na chapasiti arfaethedig yr ysgol. Ni fydd y cynnig felly'n cael effaith negyddol ar gyllid.

# Opsiynau Eraill a Ystyriwyd

Mae dwy elfen i'r cynnig, yn ymwneud â'r nifer derbyn ac felly capasiti'r ysgol, a'r ystod oedran – sef a ddylai'r ysgol gael dosbarth meithrin. Mae ystod o opsiynau wedi cael eu hystyried, fel y nodir isod, ac mae pob cyfuniad o opsiynau hefyd wedi cael eu hystyried i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

**Nifer Derbyn Cyhoeddedig a chapasiti'r Ysgol**

| Opsiwn # | NDC | Capasiti | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|
| **1 (dim newid)** | **54** | **378** | Nifer fawr o lefydd gwag, anodd cynllunio staffio a chyllidebu. |
| **2** | **45** | **315** | trefniant 1.5DM arferol. Llai o leoedd gwag. Digon o gapasiti ar gyfer y galw a ragwelir a rhywfaint o dwf, ac yn rhyddhau lle ar gyfer darpariaeth feithrin. Mae'n haws i'w gynllunio a'i gyllidebu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3** | **39** | **273** | trefniant 1.5DM wedi ei addasu i ffitio'r ystafelloedd orau Llai o leoedd gwag, ond capasiti cyfyngedig ar gyfer twf. Rhyddhau ystafell ar gyfer darpariaeth feithrin. Mae'n haws i'w gynllunio a'i gyllidebu. |

O'r opsiynau uchod, opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir. Mae lleihau'r NDC i 45 yn helpu i reoli lefelau staffio a chyllideb yr ysgol ac yn lleihau lleoedd gwag. Mae hefyd yn rhyddhau gofod y gellir ei ddefnyddio i ddarparu lleoedd meithrin, gan adael rhywfaint o gapasiti ar gyfer unrhyw dwf yn nifer y disgyblion yn y dyfodol oherwydd newid demograffig, dewis rhieni a mudo.

**Ystod oedran (darpariaeth feithrin)**

| Opsiwn # | Ystod oedran | Capasiti meithrin (CALI) | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|
| **1 (Dim newid)** | **4-11** | **0** | Dim darpariaeth feithrin yn yr ysgol; disgyblion yn dechrau yn y dosbarth Derbyn yn 4 oed. |
| **2** | **3-11** | **16** | Cynigir 32 o leoedd meithrin rhan amser a bydd plant yn gallu dechrau yn 3 oed, gan wella cynefindra â'r ysgol a dysgu. |
| **3** | **3-11** | **24** | Cynigir 48 o leoedd meithrin rhan amser felly bydd plant yn gallu dechrau yn 3 oed, gan wella cynefindra â'r ysgol a dysgu. Cynnig mwy o leoedd, ond angen mwy o staff gan arwain at gostau uwch. |

O'r opsiynau uchod, opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir. Bydd modd rheoli sefydlu meithrinfa fach o 16 i'r sesiwn bore ac 16 i'r prynhawn a chyfyngu ar unrhyw effaith bosibl ar ddarparwyr meithrin eraill, tra'n parhau i gynnig manteision lleoedd addysg Blynyddoedd Cynnar mewn ysgol sefydledig.

Ar sail yr uchod, y cynnig yw lleihau'r NDC i 45 ac ymestyn ystod oedran yr ysgol i 3-11; sefydlu dosbarth meithrin ag 16 lle (Cyfwerth ag Amser Llawn))

**Beth fydd y cynnig yn ei gyflawni?**

Bydd y cynnig a ffefrir yn gweld gostyngiad yn NDC Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas o 54 i 45, gan leihau nifer y lleoedd gwag a ragwelir o 37% i 22% erbyn 2026/27.

Bydd y cynnig a ffefrir hefyd yn ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4-11 i 3-11 drwy sefydlu dosbarth meithrin a fydd yn cynnig 32 o leoedd meithrin hanner diwrnod yn yr ysgol ac yn cyflawni llwybr di-dor o bontio o'r Feithrinfa i ddarpariaeth ysgol statudol.

# Trefniadau Trefniadaeth Ysgol

**Dalgylch**

Ni fydd unrhyw newidiadau i'r dalgylchoedd cynradd ac uwchradd presennol o dan y cynnig hwn.

**Derbyniadau**

Cyngor Dinas Casnewydd yw'r awdurdod derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, a bydd ceisiadau am dderbyniadau yn parhau i gael eu hasesu yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor.

Yn unol â'r polisi hwn, gall rhieni fynegi eu dewis ar gyfer unrhyw ysgol, ond nid oes sicrwydd y cânt eu derbyn i'r ysgol a ddewiswyd, hyd yn oed os mai hi yw'r ysgol ddalgylch. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn unol â dewis rhieni, os bydd lleoedd ar gael. Pan fo ysgol wedi ei gordanysgrifio, caiff dewisiadau rhieni eu hystyried o hyd ond caiff meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor eu dilyn i bennu blaenoriaeth.

**Derbyn i'r Dosbarth Derbyn - Medi 2024**

Gellir gwneud ceisiadau gan ddefnyddio gwasanaeth derbyniadau ar-lein y cyngor rhwng 6 Tachwedd 2023 a 9 Ionawr 2024. Cyhoeddir hysbysiadau penderfynu ar gyfer ceisiadau prydlon yn 16 Ebrill 2024.

Efallai na phenderfynir ar y cynnig cyn agor y ffenestr i wneud cais ar gyfer Dosbarth Derbyn. Felly, hysbysir rhieni wrth wneud cais am Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, bod yr ysgol yn destun cynnig byw a fydd, os caiff ei gymeradwyo, yn arwain at lai o gapasiti; felly, bydd rhieni yn cael eu hannog i gynnwys dewisiadau ysgol amgen wrth gwblhau eu ceisiadau.

**Derbyn i'r Grwpiau Blwyddyn Un i Flwyddyn Chwech – Medi 2024**

Mae'r rhain yn cael eu dynodi fel ceisiadau derbyn yn ystod y flwyddyn a gellir eu gwneud trwy ffurflen gais yn ystod y flwyddyn sydd ar gael ar wefan y cyngor. Gellir cyflwyno ceisiadau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn yn ystod tymor yr haf 2024. (Union ddyddiad i'w gadarnhau) Er na fydd disgyblion presennol sy'n mynychu'r ysgol yn cael eu dadleoli, mae'n debygol y bydd ceisiadau yn ystod y flwyddyn a fyddai'n mynd â'r grŵp blwyddyn dros y NDC yn cael eu gwrthod. Bydd unrhyw geisiadau a gaiff eu gwrthod â'r hawl i apelio.

**Derbyn i Ddosbarth Meithrin – Medi 2025**

Gellir gwneud ceisiadau drwy ddefnyddio gwasanaeth derbyn ar-lein y Cyngor rhwng Gorffennaf a Medi 2024. Cyhoeddir hysbysiadau penderfynu ar gyfer ceisiadau prydlon fis Rhagfyr 2024. (Union ddyddiad i'w gadarnhau)

Ceir rhagor o wybodaeth am y polisi a'r broses Derbyn i Ysgolion ar wefan y Cyngor yn https://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/Schools/Apply-for-a-Place/Apply-for-a-Place.aspx

**Trafnidiaeth**

Pan fo'n briodol, darperir trafnidiaeth yn unol â pholisi'r Cyngor. Mae mannau gollwng a chasglu disgyblion yn ddiogel wedi'u nodi ac ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar hyn. Mae polisi'r Cyngor ond yn berthnasol i blant o oedran ysgol statudol ac felly ni fydd creu dosbarth meithrin yn yr ysgol yn cael unrhyw effaith ar y trefniadau hyn.

**Llywodraethu**

Ni fydd newidiadau i drefniadau llywodraethu'r ysgol o ganlyniad i'r cynnig hwn. Bydd y corff llywodraethu yn parhau i weithredu yn ei ffurf bresennol.

**Staffio**

Efallai y bydd goblygiadau staffio i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas o ran lleihau staff addysgu a chymorth lle bo angen i ategu'r gostyngiad yn niferoedd y disgyblion o'r Dosbarth Derbyn – Bl6. Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'r dosbarth Meithrin ychwanegol. Bydd hyn yn cael ei reoli gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu gyda chefnogaeth gan AD y Cyngor a'r Tîm DS.

**Risgiau**

Mae'r risgiau perthnasol i'r cynnig hwn, ynghyd â'r ffactorau lliniarol wedi eu rhestru isod:

**Tabl 12 - Risgiau**

| Risg | Ffactor lliniarol |
|---|---|
| Mae'r galw ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn cynyddu a'r ysgol yn cael ei gordanysgrifio. | Bydd hyn yn cael ei fonitro'n agos yn y grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol. Er bod hyn yn annhebygol oherwydd y gostyngiad yn y galw yn y blynyddoedd diwethaf. Byddai meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor yn cael eu defnyddio i bennu blaenoriaeth ceisiadau. Mae digon o leoedd ar draws y clwstwr i ateb y galw a ragwelir. |
| Efallai na fydd y dosbarth meithrin yn derbyn digon o geisiadau pan fydd yn agor. | Mae'n anodd rhagweld gydag unrhyw sicrwydd nifer y ceisiadau a ddaw i law. Bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn ystyried y galw disgwyliedig am leoedd meithrin wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig hwn yn dilyn ymgynghoriad. |

## Asesiadau o Effaith

Mae Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb wedi'i gynnal ar gyfer y cynnig hwn, ac mae ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor.

# Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

**Mae'r ymateb hwn yn ymwneud â'r cynnig ar y cyd i leihau'r nifer derbyn cyhoeddedig 9 lle o 54 i 45 o fis Medi 2024 ac ymestyn yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 drwy sefydlu dosbarth meithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas o fis Medi 2025.**

Mae eich barn chi'n bwysig. Rhannwch eich sylwadau gyda ni am y cynnig trwy lenwi'r holiadur hwn a'i ddychwelyd at y Swyddog Datblygu a Gwybodaeth Addysg, Cyngor Dinas Casnewydd, Ystafell 425W, Canolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR neu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, Yewberry Close, Malpas, Casnewydd, NP20 6WJ. Fel arall, gallwch gwblhau'r ffurflen ar-lein www.casnewydd.gov.uk/Ad-drefnuYsgolion neu e-bostio eich ymateb i school.reorg@newport.gov.uk.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw hanner nos ar 30 Gorffennaf 2023.** Sylwer na fydd ymatebion negyddol a wneir i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynnig; byddant yn cael eu cofnodi fel sylwadau negyddol. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

**1) A ydych chi'n cefnogi'r cynnig i:**

Leihau'r NDC 9 lle o 54 i 45 o fis Medi 2024 ymlaen a chynyddu'r ystod oedran o 4-11 i 3-11 drwy sefydlu dosbarth meithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas i fod yn weithredol o fis Medi 2025.

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ **Yn rhannol** ☐

**Defnyddiwch y blwch isod i roi sylwadau neu i esbonio pa ran o'r cynnig nad ydych yn ei chefnogi**

| |
|---|
| |

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ystyried a nodi'r holl effeithiau posib y gallai penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**2) A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?**

**Cadarnhaol** ☐ **Negyddol** ☐ **Dim effaith** ☐

**3) Os ydych o'r farn y caiff effaith negyddol, pa gamau y gallem eu cymryd i leihau neu osgoi hyn a gwella'r effeithiau cadarnhaol?**

| |
|---|
| |

4) **A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

**Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant/gofalwr plentyn sy'n mynychu ysgol feithrin leol)**

| |
|---|
| |

| **Dewiswch eich grŵp Ethnig** | | | |
|---|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | | Asiaidd-Bangladeshaidd | |
| Gwyn Gwyddelig | | Asiaidd-Indiaidd | |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall (nodwch): ___________ | | Asiaidd-Pacistanaidd | |
| | | Unrhyw gefndir Asiaidd arall | |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | | Du Caribïaidd | |
| Gwyn ac Asiaidd | | Du Affricanaidd | |
| Gwyn a Du Affricanaidd | | Unrhyw gefndir Du arall | |
| Gwyn a Du Caribïaidd | | Arabaidd | |
| Unrhyw gefndir Cymysg arall (nodwch): ___________ | | Tsieineaidd | |
| Asiaidd-Bangladeshaidd | | Unrhyw grŵp ethnig arall ( nodwch): ___________ | |
| Asiaidd-Indiaidd | | Gwell gennyf beidio dweud | |
| Asiaidd-Pacistanaidd | | | |

| **Y Gymraeg** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **A ydych chi'n ystyried eich hun yn siaradwr Cymraeg?** | | | | | |
| Ydw | | Nac ydw | | Gwell gennyf beidio dweud | |

| **Cyfrifoldebau Gofalu** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydych chi'n gofalu am blant oedran ysgol?** | | | | | |
| Ydw | | Nac ydw | | Gwell gennyf beidio dweud | |
| **A ydych chi'n gofalu am blant oedran cyn-ysgol?** | | | | | |
| Ydw | | Nac ydw | | Gwell gennyf beidio dweud | |
| **A ydych chi'n gofalu am oedolyn dibynnol neu blentyn sy'n hŷn nag oedran ysgol?** | | | | | |
| Ydw | | Nac ydw | | Gwell gennyf beidio dweud | |

Os hoffech gael eich hysbysu pan gyhoeddir yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, nodwch eich manylion cyswllt isod:

E-mail: ____________________________________________

Cyfeiriad post: ______________________________________